




GC464-00

PECYN GWYBODAETH YMGEISYDD

**YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL
TRAIS YN Y CARTREF - GWRYW**

**Mae'r swydd hon ar agor i ddynion yn unig oherwydd anghenion arbenigol
y rôl (eithriad o dan Atodlen 9, Rhan 1 Deddf Cydraddoldeb 2010)**

Mehefin 2022



CYNNWYS

- 1. Croeso**
- 2. Cefndir**
- 3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd Gorwel**
- 4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person**
- 5. Sut i ymgeisio am y swydd**
- 6. Datganiad Cyfle Cyfartal**
- 7. Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

1. Croeso

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Ymgynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref – Gwryw

Cytundeb Penodol hyd 31/03/2024

35 awr yr wythnos

Lleoliad gwaith – Gweithio adref /Lleoliad swyddfa Gwynedd neu Ynys Môn (i'w drafod)

**Mae'r swydd hon ar agor i ddynion yn unig oherwydd anghenion arbenigol y rôl
(eithriad o dan Atodlen 9, Rhan 1 Deddf Cydraddoldeb 2010)**

Diolch i chi am holi ynglŷn â'r swydd uchod gyda Gorwel ac amgaewn becyn swydd i'ch sylw.

Cofiwch nodi popeth sy'n berthnasol i'r cais gan gadw mewn cof yr hyn sydd yn y manyleb person.

1. Darllenwch y disgrifiad swydd a'r manyleb person yn ofalus.
2. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen gais.
3. Peidiwch â chynnwys CV.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflen gais, gan eich atgoffa i'w chyflwyno erbyn **12.00 o'r gloch y prynhawn, dydd Iau 23 Mehefin 2022.**

Os yn llwyddiannus i fod ar y rhestr fer am gyfweiliad, byddwn yn cysylltu â chi drwy'r cyfeiriad e-bost yr ydych wedi ei nodi ar eich ffurflen gais. Mae angen i chi wirio eich e-byst yn rheolaidd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r swydd, yna mae croeso i chi gysylltu â Eirwen Khan, Rheolwr Cynorthwyol Trais yn y Cartref ar 0300 111 2121.

**Yn gywir
Tim Adnoddau Dynol**

2. Cefndir

Grŵp Cynefin

Grŵp Cynefin yw'r unig gymdeithas dai sydd â chartrefi ym mhob un o chwe sir Gogledd Cymru a Gogledd Powys. Cafodd y gymdeithas ei sefydlu yn 2014 yn dilyn uniad dwy gymdeithas dai uchel eu parch. Rydym yn berchen ar, ac yn rheoli bron i 4,500 o gartrefi, gan gynnwys cynlluniau tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn. Mae gennym ddiddordeb mewn bron i 800 o dai fforddiadwy eraill drwy gynlluniau cymorth prynu a rhannu ecwiti.

Mae dau is-gwmni hefyd yn weithredol o dan ambarél Grŵp Cynefin: Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych sy'n gweithio i helpu pobl hŷn drwsio, addasu, cynnal a chadw eu cartrefi fel y gallent barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Gorwel

Mae Gorwel yn uned fusnes o fewn Grŵp Cynefin sy'n darparu gwasanaethau o safon i:

- gefnogi pobl sy'n dioddef trais yn y cartref
- gefnogi pobl rhag colli ei cartref ac atal digartrefedd

Rydym yn gweithio gydag unigolion a theuluoedd, rhai ohonynt yn denantiaid Grŵp Cynefin, o fewn pedair sir gogledd Cymru: Ynys Môn, Gwynedd, Sir Conwy a Sir Ddinbych.

Mae ein prosiectau'n cynnwys llochesi, cynlluniau tai â chefnogaeth, gwasanaethau plant a phobl ifanc, cefnogaeth yn y gymuned a gwasanaeth ymgynghorwyr annibynnol trais yn y cartref. Ar gyfartaledd rydym yn cefnogi hyd at 650 o bobl yr wythnos ac mae gennym dros 70 o staff cyflogedig proffesiynol.

Mae gennym staff profiadol a phroffesiynol yn gweithio o swyddfeydd ym Mhenygroes, Caernarfon, Llangedfni, Pwllheli, Dinbych, Dolgellau a Blaenau Ffestiniog.

Gwasanaethau Trais yn y Cartref Gorwel

Lloches a chefnogaeth mewn argyfwng

Mae gennym bedair lloches i bobl sydd angen cefnogaeth i ddianc rhag trais yn y cartref yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Maent yn lleoliadau diogel ac ar gael mewn argyfwng 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos i ferched a'u plant ac mae darpariaeth hefyd ar gael ar gyfer dynion.

Mae'r Cynllun Cefnogaeth Symudol ac Ymyrraeth Argyfwng gennym yn cefnogi merched, dynion a'u teuluoedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA)

Mae ein Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref yn cynnig cefnogaeth arbenigol ac ar gael i gefnogi unigolion. Trwy weithio gydag asiantaethau eraill fel Heddlu Gogledd Cymru, gallwn gefnogi unigolion sydd mewn sefyllfaoedd risg uchel.

Cefnogi Plant a Phobl Ifanc

Mae gennym ddarpariaeth arbenigol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o effeithiau trais yn y cartref. Gallwn gynnig gwybodaeth, anogaeth a chefnogaeth emosiynol ar gyfer unigolion o fewn cymunedau yn Ynys Môn a Gwynedd.

Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA)

Mae ein Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref yn cynnig cefnogaeth arbenigol ac ar gael i gefnogi unigolion. Trwy weithio gydag asiantaethau eraill fel Heddlu Gogledd Cymru, gallwn gefnogi unigolion sydd mewn sefyllfaoedd risg uchel. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys:

- Trafod math o drais – corfforol, rhywiol, aflonyddu, stelcian, emosiynol, cenfigen
- Trafod y broses MARAC
- Materion yn ymwneud ar ran diogelwch cyffredinol.
- Materion cyfreithiol
- Materion yn ymwneud â'r plant
- Materion yn ymwneud â gwahanu / ac ar ôl gwahanu
- Materion yn ymwneud â materion ariannol.
- Materion tai a diogelwch eiddo.
- Materion lechyd a llesiant
- Materion cefnogaeth ychwanegol

Beth fydd ei angen arnoch chi i lwyddo yn y rôl hon

Byddwch yn cynnig profiad gweithiwr cymorth i unigolion bregus a bydd gennych wybodaeth am weithio o fewn elusen neu sefydliad sector cyhoeddus, lle rydych wedi mentora a chefnogi yn llwyddiannus. Bydd gennych ymwybyddiaeth gynhwysfawr o gefnogi pobl bregus a gwybodaeth a phrofiad o ysgogi hyder, hunan-barch ac annibyniaeth.

Eich personoliaeth.....

Byddwch yn hyderus gyda'r gallu i weithio gyda phob grŵp oedran, yn meddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu gwyb cydberthnasau a gweithio ar y cyd gydag ystod eang o bartneriaid cyflenwi, academaidd sefydliadau a phlant / pobl ifanc. Byddwch yn drefnus iawn, yn gallu addasu i newid, yn gadarn, yn wydn ac yn mwynhau cymell unigolion sydd ag angerdd i gefnogi unigolion bregus.

Mwy o wybodaeth - Ewch ar ein gwefan

www.grwpcynefin.org/cy/eich-cymuned/gorwel/

3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd Gorwel

Yn Gorwel mae ein hethos yn canolbwyntio ar alluogi, cefnogi a grymuso pobl, ac mae hynny'n cynnwys ein staff. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi tynnu ynghyd ychydig o gyngor ac awgrymiadau defnyddiol ar sut i gwblhau cais am swydd wag yn Gorwel. Rydym am asesu pobl ar eu gorau fel y gallwn gael gwir ddealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl ac i'n sefydliad.

Y pethau sylfaenol

Mae'n swnio'n syml ond mae'r pethau sylfaenol hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch cais.

- Cwblhewch y cais yn llawn gan roi sylw arbennig i hanes a dyddiadau swyddi. Peidiwch â gadael dyddiadau'n wag - os oes gennych fwch yn eich cyflogaeth dywedwch wrthym am hyn, ni fydd yn effeithio ar ein hasesiad
- Gwiriwch eich sillafu a'ch gramadeg
- Sicrhewch fod eich cais yn cael ei gyflwyno'n dda yn electronig. Rydym yn asesu cymwysiadau yn gyffredinol ar gyfer llythrennedd cyfrifiadurol a defnyddi o Microsoft Office

Deall cam-drin domestig neu ddigartrefedd.

Mae ein ffurflen gais yn gofyn am eich dealltwriaeth o gam-drin domestig neu ddigartrefedd a'i effaith ar oedolion, plant a theuluoedd. Rydym am sicrhau ein bod yn cyflogi pobl sydd â dealltwriaeth sylfaenol o leiaf o gam-drin domestig neu ddigartrefedd, fel y gallent ffitio o fewn diwylliant a gwerthoedd ein sefydliad.

- **PEIDIWCH** â diystyru na rhuthro'r cwestiynau hyn - maen nhw'n rhan o'n hasesiad
- **PEIDIWCH** â chopio na llên-ladrata o gynnwys ar-lein neu ein gwefan
- **COFIWCH** ymchwilio i'r pwnc (os oes angen) a ffurfio'ch casgliad eich hun
- **COFIWCH** ymchwilio i ddarpariaethau Gorwel ac Grŵp Cynefin.

Datganiad personol - y darn pwysig iawn!

Bydd eich datganiad personol yn cael ei farcio gan grŵp o aseswyr (o leiaf dau o bobl) yn annibynnol yn erbyn manyleb unigolyn y rôl. Y fanyleb person yw'r ddogfen olaf yn y pecyn swydd bob amser a bydd yn cynnwys set o feini prawf hanfodol a ddymunol.

- **GWNEWCH YN SIWR** eich bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol, yn benodol lefel y profiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r lefel ofynnol o brofiad yn cael eu hasesu ymhellach
- **COFIWCH** deilwra'ch cais gan ddarparu manylion ac enghreifftiau ar gyfer pob gofyniad yn y fanyleb person.

Er enghraifft, nid yw'n ddigonol dweud "Rwy'n chwaraewr tîm da". I sgorio'r mwyafrif o bwyntiau byddwch chi'n rhoi enghraifft i ni o amser lle buoch chi'n gweithio fel rhan o dîm a beth oedd y canlyniad.

- **COFIWCH** gynnwys pob un o ofynion y fanyleb person
- **COFIWCH** gynnwys penawdau a'i gwneud hi'n hawdd i'r asesydd weld pa ofyniad yn y fanyleb person rydych chi'n cyfeirio ato
- Nid yw ychydig o frawddegau yn ddigon o hyd ar gyfer datganiad personol. Bydd datganiad da yn darparu'r holl lefel o fanylion sydd eu hangen arnom ond bydd yn glir ac yn gryno
- tua 2 dudalen A4 yn fras.

Pwynt cyswllt

Mae ein pecynnau swyddi bob amser yn cynnwys pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach. Os ydych chi am ddarganfod mwy am y rôl neu wirio'ch addasrwydd, defnyddiwch y wybodaeth gyswllt a ddarperir.

4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person



GRŴP CYNEFIN

YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL TRAIS YN Y CARTREF (IDVA) - GWRYW

Adran:	Gorwel
Yn uniongyrchol atebol i:	Arweinydd Tim IDVA Gwynedd ac Ynys Môn
Yn uniongyrchol gyfrifol am:	D/B
Lleoliad y swydd:	Gweithio adref / Lleoliad swyddfa Gwynedd neu Ynys Môn.

Pwrpas y Swydd:

- Darparu gwasanaeth rheng flaen o ansawdd uchel i ddioddefwyr cam-drin domestig, gan ddarparu gwasanaeth i'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl (risg uchel) fel bo Gorwel yn rhagori.
- Arwain a gweithio o fewn fframwaith aml-asiantaeth sy'n cynnwys MARAC ac ymatebion partneriaeth lleol i gam-drin domestig.
- Cefnogi Arweinydd Tim IDVA a chyd weithio gydag aelodau eraill yn y gymuned i gyflawni nod ac amcanion y cynllun.
- Yn gyfrifol i ddarparu cymorth ac arweiniad arbenigol i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n dioddef o drais yn y cartref yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan ganolbwyntio ar ganlyniadau rhagorol.
- Gweithredu fel prif gyswllt ar gyfer darpar defnyddwyr gwasanaeth / ddefnyddwyr gwasanaeth bregus gan weithredu a blaenoriaethu yn ôl angen a risg.
- Gweithredu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cefnogaeth holistig a pherson ganolig i wireddu safonau uchel o berfformiad sy'n cynnig 'cefnogaeth a mwy'.

**Mae'r term 'defnyddwyr gwasanaeth' yn cyfeirio at ddynion, merched, plant, pobl ifanc, oedolion, pobl hŷn a theuluoedd.*

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL:

1. Nodi ac asesu risgiau ac anghenion dioddefwyr cam-drin domestig gan ddefnyddio rhestr wirio adnabod risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
2. Blaenoriaethu a chanolbwyntio ar achosion â risg uchel a darparu gwasanaeth ymyrryd argyfwng tymor byr i ganolog, rhagweithiol drwy gynllun diogelwch unigol a chefnogaeth bersonol.
3. Gweithio â dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau er mwyn eu cadw nhw a'u plant yn ddiogel.
4. Cynnal berthynas positif a therapiwtig â defnyddwyr gwasanaeth gan ddangos dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â thrawma, anhwylder personoliaeth ac ymlyniad.
5. Bod yn eiriolwr ar gyfer dioddefwyr risg uchel gydag asiantaethau a all helpu i ddelio â'r cam-drin domestig drwy:
 - Deall rôl yr holl wasanaethau statudol ac anstatudol perthnasol sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig, a sut mae'r rôl yn berthnasol iddynt.
 - Darparu eiriolaeth, cefnogaeth emosiynol ac ymarferol a gwybodaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys mewn perthynas ag opsiynau cyfreithiol, tai, iechyd, llesiant a chyllid.
 - Gweithio'n uniongyrchol â holl bartneriaid asiantaeth allweddol i fynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr risg uchel a sicrhau bod eu cynlluniau diogelwch yn cydlynu drwy'r MARAC yn arbennig.
6. Rheoli baich achosion, gan sicrhau bod pob defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y gwasanaeth priodol ar gyfer eu hanghenion.
7. Cefnogi grymuso'r defnyddwyr gwasanaeth gan eu helpu i adnabod nodweddion a deinameg eu sefyllfa cam-drin domestig, a'u helpu i adennill rheolaeth dros eu bywydau.
8. Deall strwythurau partneriaeth aml-asiantaeth a gweithio o fewn gosodiad aml-asiantaeth a fydd yn cynnwys cyfranogiad yn y MARAC a'r Lllys.
9. Arwain er mwyn cyfrannu tuag at ymyriadau a chynorthwyo i lunio cynllun er mwyn amddiffyn dioddefwyr ac unrhyw blant, tra'n cynnal rôl annibynnol ar ran defnyddwyr gwasanaeth, gan gadw eu diogelwch yn ganolog i unrhyw ymateb.
10. Yn unol â phroses rhaglen rheoli achos Modus: Bod yn rhagweithiol â rheolwr llinell wrth wneud adolygiadau achos cyfnodol yn seiliedig ar adolygiad o risg a cham-drin sy'n:
 - Bwydo nôl i gynllun gweithredu er mwyn symud ymlaen, cyfeirio neu gau achosion a
 - Rhoi adborth i ddefnyddwyr gwasanaeth/asiantaethau.

11. Cynnal ffeiliau defnyddwyr gwasanaeth yn unol â gofynion statudol, deddf diogelu data gan gadw cofnodion clir, manwl a chryno o safon uchel gan wneud defnydd llawn o'r system rheoli achosion Modus.
12. Cyfrifoldeb i ddarparu adroddiadau penodol o safon uchel ar faterion perthnasol e.e. adroddiadau ar gyfer y llys, cyfarfodydd achos ag astudiaethau achos rheolaidd.
13. Ymateb a gweithredu yn brydlon gan hysbysu'r rheolwr llinell am unrhyw bryderon Amddiffyn Plant ac Amddiffyn Oedolion Bregus gan gwblhau cyfeiriadau cywir a ffeithiol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.
14. Trefnu gwasanaethau perthnasol ac arbenigol sydd eu hangen ar y defnyddwyr gwasanaeth gan eu cyfeirio i wasanaethau arbenigol pam bo'r angen (e.e. Tim lechyd Meddwl, Tim Cam-ddefnyddio Sylweddau, Cyngor ar Bopeth).
15. Cynnal berthynas waith rhagorol gydag asiantaethau allanol gan gynnwys cynlluniau mewnol Gorwel. (llochesi, cefnogaeth symudol a gwasanaethau plant a phobl ifanc) .
16. Cyfrifoldeb i gefnogi ac annog defnyddwyr gwasanaeth yn y prosiect i sefydlu perthynas positif gyda'u perthnasau (os yn bosib)
17. Cyfrannu at hyrwyddo cyfranogiad i sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaeth ddylanwadu ar y gwasanaeth a ddarperir gan Gorwel.
18. Bod â gwybodaeth eang am ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i digartrefedd, trais yn y cartref a chefnogaeth.
19. Delio gyda gwaith gweinyddol sy'n ymwneud â'r swydd gan gadw cofnod o gronfeydd data yn gywir a chyfrinachol a chyfrannu i fonitro gwybodaeth am y gwasanaeth.
20. Hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, Microsoft Office 365 ac I-pad.

CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL:

Cyflawni Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni'r gwaith i safon uchel, ar amser ac o fewn cyllidebau • Ymateb i gwsmeriaid mewnol ac allanol yn ddi-oed ac yn broffesiynol • Darparu cyngor a chefnogaeth i gyd-weithwyr/cwsmeriaid • Cyflwyno adroddiadau rheolaidd o fewn cyfrifoldebau'r swydd • Cydymffurfio gyda phob polisi ac unrhyw ddeddfwriaeth perthnasol
Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu tuag at gyflawni Safonau Perfformiad Allweddol yn llwyddiannus • Gweithio tuag at nodau ac amcanion Gorwel / Grŵp Cynefin a chefnogi datblygiad y corff
Polisiâu a Phrosesau	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio yn unol â holl bolisiâu a phrosesau Gorwel / Grŵp Cynefin • Sicrhau bod polisiâu a phrosesau yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol, rheolaethol ac ymarferion da • Adolygu a chynnig gwelliannau i bolisiâu i gefnogi gwelliant parhaus
Ariannol a Chyllidebol	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu i reoli cyllidebau'n effeithiol
Arall	<ul style="list-style-type: none"> • Cynrychioli Gorwel / Grŵp Cynefin yn effeithiol yn allanol trwy gyfleu delwedd broffesiynol a phositif ar bob achlysur • Ymrwymiad i gyfranogi tenantiaid ym mhob agwedd o'r gwaith

Nid yw'r Disgrifiad Swydd uchod yn rhestr holl gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.

Bydd gofyn i ymgymryd â dyletswyddau eraill o fewn graddfa'r swydd o bryd i'w gilydd mewn trafodaeth â'r Rheolwr.

Adolygir y disgrifiad swydd yn rheolaidd ac yn unol â gofynion y gwasanaeth.

Caiff unrhyw newid a fwriedir ei drafod gyda deilydd y swydd

CYFRIFOLDEBAU PERSONOL:	
Gweithredu yn unol â gwerthoedd Grŵp Cynefin:-	
Agored	Tryloyw yn y ffordd rydym yn gweithio ag yn gwneud penderfyniadau. Barod i gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.
Arloesol	Blaengar ac yn barod i herio ein hunain er mwyn darganfod ffyrdd newydd o weithredu a darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.
Cefnogol	Gweithio gydag angerdd i gefnogi ein cwsmeriaid, cyd-weithwyr a'n partneriaid yn ogystal â helpu ein cymunedau lwyddo.
Cyflawni	Gweithredu'n broffesiynol gan ddefnyddio ein harbenigedd, er mwyn sicrhau ffyniant y cwmni a'n pobl. Anelu am welliant parhaus a gwerth am arian bob amser.
Parch	Parchu ein gilydd ag eraill, hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthod unrhyw ragfarn
Sicrhau cyfrinachedd, diogelwch a chywirdeb data Hyrwyddo a gweithredu yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd o'r gwaith	

PRIF GYSYLLTIADAU'R SWYDD:	
Mewnol:	Pob aelod o staff
Allanol:	Defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'r cyhoedd, swyddogion tai'r awdurdod lleol, swyddogion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cymorth i Ferched Cymru, adrannau budd-daliadau, gwasanaethau cymdeithasol, adran iechyd yr amgylchedd ac adran gwarchod y cyhoedd. swyddogion landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, landlordiaid preifat, CAB, cynghorwyr lleol, asiantaethau arbenigol, darparwyr gofal a chefnogaeth, IDVA Rhanbarthol, yr Heddlu, Llysoedd, Cyfreithwyr, Gwasanaeth Prawf.

AMGYLCHEDD GWAITH ARFEROL:	
<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau i gartrefi a sefydliadau cysylltiedig yn Ynys Môn / Gwynedd. • Gwaith wrth ddesg mewn swyddfa / gweithio adref. • Cyfarfodydd allanol, yn swyddfeydd partneriaid a chleientiaid • Teithio i gyfarfodydd / hyfforddiant • Oriau swyddfa safonol, ond oriau ychwanegol o bryd i'w gilydd i fynychu cyfarfodydd/gweithgareddau tu allan i oriau swyddfa. • Rhan o rota gweithio ar benwythnosau er mwyn darparu gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos • Cymryd rhan yn rota ar-alwad, 24awr 7 diwrnod yr wythnos. 	

MANYLEB PERSON
YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL TRAIS YN Y CARTREF (IDVA) - GWRYW

Ystyrir yr holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel dymunol

Addysg a Chymwysterau:

- Cymhwyster IDVA /YPVA/ QCF Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (**Dymunol**)
- Lefel A (2+)
- Cymhwyster mewn gofal plant, gofal, cefnogaeth neu waith cymdeithasol neu/ac
- NVQ Lefel 3 (National Vocational Qualification) neu/a
- BTEC Diploma Cenedlaethol neu/a BTEC ONC (Ordinary National Certificate) neu/a
- City & Guilds Lefel 3 neu/a
- Hyfforddiant neu brofiad perthnasol

Profiad Proffesiynol:

- Profiad arbenigol yn y maes cam-drin domestig gan gynnwys effaith cam-drin domestig ar ddiodefwyr a'u plant.
- Meddu ar wybodaeth ddamcaniaethol, ymarferol a gweithdrefnol o gamau gwella cyfiawnder sifil a throreddol i ddiodefwyr cam-drin domestig a'u plant.

Gwybodaeth a Sgiliau:

- Gwybodaeth ac arbenigedd o'r maes trais yn y cartref a chefnogaeth
- Deall yr egwyddorion o asesu risg, cynllunio diogelwch, a rheoli risg ar gyfer ddiodefwyr cam-drin domestig a'u plant.
- Deall cylchoedd gwaith ac adnoddau cyrff statudol ac asiantaethau gwirfoddoli perthnasol.
- Sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol, ysgrifenedig a llafar datblygedig iawn a'r gallu i reoli tasgau cymhleth mewn fframiau amser sydd wedi'u diffinio'n glir (gan gynnwys cofnodion cywir, adroddiadau, nodiadau achos a chyfathrebu rhyngpersonol)
- Dealltwriaeth o, ar gallu i weithredu ffiniau clir - i wrando ac i beidio barnu
- Yn meddu ar sgiliau i asesu ac ymateb i anghenion ac risg.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bolisiâu a strategaethau trais yn y cartref, digartrefedd a chefnogaeth:
 - Deddf Tai (Cymru) 2014
 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol A Llesiant (Cymru) 2014
 - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
 - Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
 - Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Bregus Cymru Gyfan.
- Trwydded yrru gyfredol lawn
- Gallu defnyddio TGC fel arf gwaith

Yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y lefelau canlynol neu lefelau uwch:

Deall: Yn gallu dilyn sgysgiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith yn y ddwy iaith rhwng siaradwyr rhugl

Siarad: Yn gallu cynnal sgwrs go fanwl am faterion gwaith arferol yn y ddwy iaith

Darllen: Yn gallu darllen a deall deunydd cyffredin a deunydd technegol gyda geiriadur yn y ddwy iaith

Ysgrifennu: Yn gallu drafftio testun arferol gyda chymorth golygyddol yn y ddwy iaith

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Y gallu i flaenoriaethu tasgau a gweithio'n annibynnol gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth.
- Rheoli baich achosion risg uchel.
- Gweithio o fewn fframwaith aml asiantaethôl a deddfwriaethol

Crynodeb o'r Telerau ac Amodau YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL TRAIS YN Y CARTREF (IDVA) - GWRYW	
Math o gytundeb	Cytundeb Penodol hyd 31/03/2024
Cyflog	Pwynt 1 – 4, £24,009 - £26,236 Lwfans ar-alwad £12 y diwrnod / £24 ar benwythnos a gŵyl y banc. Cynigir y swydd ar bwynt isaf y band Telir cyflog ar yr 20fed o bob mis
Gwyliau:	Rhoddir 36 diwrnod pro rata y flwyddyn o wyliau (25 diwrnod craidd, 3 diwrnod yn lle'r cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r 8 gŵyl banc statudol ymlaen llaw) yn cynyddu i 41 diwrnod pro rata y flwyddyn o wyliau wedi 5 mlynedd o wasanaeth (30 diwrnod craidd, 3 diwrnod yn lle'r cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r 8 gŵyl banc statudol ymlaen llaw). <i>(Nid oes hawl awtomatig am wyliau yn ystod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd na'r gwyliau banc statudol gan bod angen sicrhau rhediad y gwasanaeth yn ystod y cyfnod yma)</i>
Teithio:	45 ceiniog y filltir
Pensiwn:	Mae Gorwel/Grwp Cynefin yn cynnig darpariaeth pensiwn trwy Gynllun Social Housing Pension Scheme (SHPS)
Cyfnod prawf	6 mis
Oriau gweithio a threfniant gwaith	35 awr yr wythnos Dydd Llun i ddydd Sul (gweithio ar benwythnosau yn rhan o rota ranbarthol). Yn rhan o'r rota ar alwad 7 diwrnod yr wythnos. Gweithredir cynllun fflecsi
Tâl salwch	Gweithredir cynllun tâl salwch galwedigaethol
Absenoldebau Arbennig	5 diwrnod pro rata gyda thâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ofalu am ddibynyddion penodol 2 diwrnod pro rata gyda thâl i briodi, i symud tŷ, i ysgaru. Amser credyd rhesymol ar gyfer apwyntiadau meddygol. Hyd at 10 diwrnod pro rata gyda thâl ar achlysur o brofedigaeth. Hyd at 3 mis pro rata gyda thâl i ofalu am berthynas agos gydag afiechyd terfynol
Buddiannau ffordd o fyw	Mynediad i'n cynllun Lles Byd o Les yn ystod 2022 Cyfleusterau gweithio hyblyg a'r gallu i weithio o bell / gweithio gartref os yn addas.
Datblygiad Personol	Os oes gennych gymwysterau proffesiynol a'ch bod yn talu ffioedd proffesiynol blynyddol i'ch corff aelodaeth, byddwn yn talu un o'r rhain bob blwyddyn i'ch helpu i aros yn gysylltiedig a'r wybodaeth a'r addysg ddiweddaraf gan eich corff proffesiynol. Rydyn ni hefyd eisiau i'n holl gydweithwyr fwynhau buddion dysgu gydol oes, felly os ydych chi'n gweithio gyda ni byddwn ni'n buddsoddi ynoch chi fel hyn hefyd

<p>Gwiriad GDG</p>	<p>Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 ac fel rhan o'r drefn recriwtio staff, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei g/wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>Oherwydd eithrio Grŵp Cynefin o effeithiau'r Ddeddf hon, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatgelu pob trosedd mae ef neu hi wedi ei gael yn euog ohonynt hyd yn oed os yw'r rheini yn rhai a fuasai wedi darfod yn unol â'r Ddeddf ac na fuasai fel arfer yn gorfod cael eu datgelu. Os bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn peidio datgelu trosedd a bod Grŵp Cynefin yn darganfod bod trosedd wedi ei chofnodi yn ei erbyn ef neu hi, bydd y cytundeb cyflogaeth yn cael ei derfynu yn syth ac heb unrhyw benderfyniad pellach.</p>
<p>Gwiriad gan yr Heddlu</p>	<p>Mae cynnig y swydd hon yn ddibynnol ar ymateb ffafriol i wiriad yr Heddlu (MV Management Vetting) ac fel rhan o'r penodiad bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei wirio gan yr Heddlu cyn iddo/iddi gychwyn yn y swydd. Mae'r gwiriadau'n cynnwys gwirio cymwysterau, cenedlaetholdeb, ariannol a chredyd, euogfarnau troseddol a thystlythyrau. Mae'r gwiriadau hefyd yn cynnwys gwiriadau gwrthderfysgaeth.</p>

5. Sut i ymgeisio am y swydd

Cwblhewch y ffurflen gais a'i chyflwyno erbyn **hanner dydd, dydd Iau, 23 Mehefin 2022**. Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.

6. Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Grŵp Cynefin yn derbyn gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 ynghyd â deddfwriaethau eraill perthnasol a'u goblygiadau.

Mae gweithdrefnau yn eu lle i oresgyn gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae polisiâu Grŵp Cynefin yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg.

7. Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Gofynnwn yn garedig i chi hefyd gwblhau'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a'i dychwelyd gyda'ch cais os gwelwch yn dda